Grŵp Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

3 Ebrill 2018

Annwyl Gadeirydd

**Cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 15 Ionawr 2018: Gwasanaeth Digidol Llywodraeth y DU**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 8 Mawrth a gododd nifer o gwestiynau ynghylch y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru â Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â chaffael gwasanaethau digidol.

**Cwestiwn 1 – I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru mewn gwirionedd yn defnyddio fframweithiau Digidol, Data a Thechnoleg (DDat) Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth (GDS)?**

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r fframweithiau caffael hyn yn helaeth, yn benodol y fframwaith GCloud a'r fframwaith Digital Outcomes and Specialists. Mae'r tabl isod yn dangos sut y mae'n gwariant wedi cynyddu bob blwyddyn drwy'r fframwaith GCloud. Rydym yn defnyddio GCloud i fodloni'n gofynion digidol llai.

| | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **G-Cloud** | **£86,800** | **£111,699** | **£51,883** | **£187,856** | **£530,987** | **£602,182** | **£1,571,407** |

Ffynhonnell: Gwasanaeth Masnachol y Goron

Rydym yn defnyddio'r fframwaith Digital Outcomes and Specialists ar gyfer ein gofynion digidol mwy.

Mae'r fframwaith hwn ar waith ers Chwefror 2016. Nid yw Gwasanaeth Masnachol y Goron wedi rhoi inni'r wybodaeth gyfatebol am wariant drwy'r fframwaith Digital Outcomes and Specialists. Felly, rwyf wedi rhestru'r contractau yr ydym wedi'u dyfarnu hyd yma, a'u gwerthoedd cysylltiedig. Rydym wrthi hefyd yn caffael cymorth drwy'r framwaith hwn ar

Ffôn • Tel **03000 256162**
Andrew.Slade@gov.wales
Gwefan • website: www.llyw.cymru
www.gov.wales
Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

gyfer Camau Darganfod y Prosiect Cofrestru Tir yn Electronig a’r prosiect Cyllid Myfyrwyr Cymru.

| Dyddiad | Gofynion Digital Outcomes and Specialists | Gwerth y Contract |
|---|---|---|
| Gorffennaf 2017 | Partner cyflenwi system ddigidol casglu a rheoli trethi Awdurdod Cyllid Cymru | £1,794,730 |
| Hydref 2017 | Cau Dysgu Cymru | £45,000 |
| Tachwedd 2017 | Prosiect Porth Cymru | £587,336 |

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio Microsoft Azure ar gyfer gwasanaethau cwmwl ond rydym wedi caffael hwn drwy Fframwaith Nwyddau a Gwasanaethau TG y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC). Drwy hyn gallwn sicrhau mai Canolfan Ddata Microsoft yng Nghymru sy’n darparu’r gwasanaethau.

**Cwestiwn 2 – Rhowch resymau pam na fyddai Llywodraeth Cymru yn defnyddio’r fframweithiau caffael hyn yn uniongyrchol ac yn hytrach yn creu fersiynau ar wahân**

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio’r fframweithiau caffael DDat y GDS ar gyfer y rhan fwyaf o’n caffael digidol. Nid oes gennym ein fersiynau gwahanol ein hunain.

Fodd bynnag, rydym wedi cynnal asesiad o’r farchnad, a nodwyd dau faes i roi sylw iddynt. Y meysydd yw:

1. llwybr hawdd a chyflym i’r farchnad i fusnesau bach a chanolig Cymru ddiwallu anghenion prosiectau bach. Yn y gorffennol, nid yw’r busnesau hyn wedi’u rhestru yn y Fframweithiau Digidol.
2. y cyfle i ddarparu fframwaith y gall sefydliadau’r sector cyhoeddus brynu meddalwedd a gwasanaethau drwyddo sy’n ateb gofynion safonau’r Gymraeg.

Ar hyn o bryd nid yw’r ddau faes hyn wedi’u cynnwys yn fframweithiau DDat y GDS presennol.

**Cwestiwn 3 – Yn Lloegr maent yn defnyddio’r mecanweithiau newydd, fel y nodwyd yn eich llythyr, sy’n darparu ar gyfer caffael cyflym a dull arbrofol ailadroddol. Mae’n ymddangos bod yn well gan Lywodraeth Cymru y contractau TG mawr ar yr hen ffurf sydd yn para am lawer o flynyddoedd ac yn cymryd cryn dipyn o amser i’w caffael. Yn yr achos hwn, a allwch chi egluro beth yw’r amserau arweiniol ar gyfer fframweithiau caffael Llywodraeth Cymru o’u cymharu â’r rhai yn Lloegr a pham nad yw’n ymddangos eu bod yn cael eu defnyddio, ynghyd â faint sydd wedi’i wario ar y fframweithiau caffael yn Lloegr.**

Fel y nodwyd eisoes, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio’r ffyrdd newydd o gontractio. Fodd bynnag, mae ganddi rywfaint o hen gontractau sy’n dirwyn i ben. Un enghraifft yw ein contract ag Atos (a’i ragflaenydd, Siemens Business Services) sy’n dod i ben ar 11 Ionawr 2019. Ar ôl Ionawr 2019, bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio trefn fodern amlffynhonnell ac mae eisoes yn symud fesul cam i drefn gyflenwi amlffynhonnell lle bydd y rhan fwyaf o’n gwasanaethau TGCh a digidol yn dod o dan ein rheolaeth uniongyrchol ni. Dangosir hyn gan y gwariant drwy gontract Atos, sydd wedi gostwng o £51 miliwn yn y flwyddyn ariannol 2012/13 i £34 miliwn yn y flwyddyn ariannol 2017/18.


Yn ogystal, nid yw'n gwasanaethau digidol bellach yn cael eu caffael yn rheolaidd drwy gontract Atos. Yn hytrach, defnyddir amrywiaeth o fframweithiau GDS (GCloud a Digital Outcomes) a Gwasanaeth Masnachol y Goron ynghyd â fframweithiau'r GCC.  Mae nifer y prosiectau sy'n cael eu cynnal drwy ddefnyddio adnoddau mewnol a chontractwyr allanol yn cynyddu. Mae'r tabl isod yn dangos gwariant Llywodraeth Cymru drwy'r gwahanol fframweithiau  yn ystod y tair blynedd diwethaf. Nid yw'r tabl yn cynnwys y gwariant o dan y fframwaith Digital Outcomes and Specialists fel yr esboniais uchod.

| | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** |
|---|---|---|---|
| **Fframweithiau Gwasanaeth Masnachol y Goron** | £ 2,617,246 | £ 1,336,196 | £ 490,838 |
| **G-Cloud** | £ 187,856 | £ 530,987 | £ 602,182 |
| **Fframweithiau TGCh GCC** | £ 545,607 | £ 3,085,472 | £ 4,994,385 |
| | **£3,350,709** | **£4,952,655** | **£6,087,405** |

Ffynhonnell: Gwasanaeth Masnachol y Goron a Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i chi.

Yn gywir



**ANDREW SLADE**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol – Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol**